**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr

**Neuadd Bentref Reynoldston - Church Meadow, Reynoldston, Gŵyr, Abertawe**

**Dydd Llun, 2 Rhagfyr 2019 am 7.00 pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) fu'n llywyddu

**Y Cynghorydd**
L James

**Aelodau'r Grŵp Llywio**

| | | |
|---|---|---|
| J France | S Heard | S Hill |
| G Howe | P Jenkins | H Osborn |
| B Parry | P Thornton | D P Tucker |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Paul Meller | Rheolwr Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd Naturiol |
| Mike Scott | Swyddog AoHNE Gŵyr |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Chris Dale | Arweinydd Tîm Mynediad i Gefn Gwlad (Hawliau Tramwy) |

**Hefyd yn bresennol**
Ian Button, Justin Davies, John Marson

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child, J P Curtice, P R Hood-Williams a/ac A H Stevens
Aelodau o'r Grŵp Llywio(wyr): R Button a/ac J Chambers

---

**26 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**27 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod blynyddol Partneriaeth AoHNE Gŵyr a gynhaliwyd ar 23 Medi 2019 fel cofnod cywir.

**28 Materion yn codi o'r cofnodion.**

Dim.

## 29 Cais am Ddyfarniad Cymuned Awyr Dywyll - Diweddariad.

Cyflwynodd Swyddog AoHNE Gŵyr adroddiad diweddaru ar ran Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr am Gais Cymuned Awyr Dywyll Gŵyr.

Eglurwyd bod un mater yn weddill y byddai'n cymryd mwy o amser i'w ddatrys gyda'r Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol (IDA). I grynhoi, roedd y mater yn ymwneud â chael dulliau diogelu ar waith mewn cyfarwyddyd cynllunio ynghylch 'tymheredd lliw' goleuadau datblygu ym mhenrhyn Gŵyr. Roedd yr IDFA yn ceisio trothwyau o 3000kelvin yn yr AoHNE. Disgrifiwyd bod 3000kelvin yn lliw 'gwyn cynnes', a byddai'r trothwy yn cyfyngu ar olau sbectrwm glas a oedd yn gysylltiedig ag effeithiau ar iechyd dynol a bywyd gwyllt.

Nid oedd yr IDA yn derbyn yr ymagwedd arfaethedig a ddarparwyd - roedd am sicrhau bod terfyn y trothwy wedi'i gynnwys yn y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) cyn i'r cyngor benderfynu ar y cais. Ychwanegwyd bod Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr adran polisïau cynllunio i wneud y newidiadau angenrheidiol, ond y byddai'n cymryd cryn amser yn y flwyddyn newydd i orffen y CCA. Amlinellwyd y camau gweithredu a oedd ar ôl ar gyfer y prosiect hefyd.

Trafododd y grŵp y canlynol: -

- Materion diogelwch sy'n gysylltiedig â diffyg goleuadau a sut roedd templed y CCA wedi'i ddefnyddio'n helaeth ledled y DU ac wedi canolbwyntio ar sawl maes gan gynnwys diogelwch.
- Darparu goleuadau ar y briffordd lle bo'r angen, a pheidio â chyfyngu ar oleuadau ar y briffordd;
- Enghreifftiau o oleuo da/gwael yn yr AoHNE;
- Y trothwy 3000 kelvin a fynnir gan yr IDA,

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 30 Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru - Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Cyflwynodd Swyddog AoHNE Gŵyr adroddiad 'er gwybodaeth' ar ran Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr.  Eglurwyd bod Llywodraeth Cymru newydd orffen ymgynghoriad ffurfiol ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) Drafft a fyddai'n gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru o 2020 i 2040.

Ychwanegwyd bod y FfDC drafft yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys: -

- cynnal a datblygu economi lewyrchus;
- datgarboneiddio;
- datblygu ecosystemau cydnerth; a
- gwella iechyd a lles ein cymunedau.

Roedd manylion yr ymgynghoriad hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru a darparwyd ymateb Cyngor Abertawe i'r FfDC drafft a oedd yn codi pwyntiau penodol am Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

**31 Adolygiad Canllaw Dylunio AHNE Gwyr.**

Darparodd Swyddog AoHNE Gŵyr adroddiad diweddaru am Adolygiad o Ganllaw Dylunio AoHNE Gŵyr. Ychwanegwyd, yn dilyn mabwysiadau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ym mis Chwefror 2019, fod y Canllaw Dylunio wedi'i ddiweddaru a'i ehangu gan y Tîm Cynllunio Polisi, drwy weithio gyda Nathaniel Lichfield & Partners. Byddai'r rhifyn diweddaredig yn cynnwys adrannau newydd ar gabanau; Goleuo ac Arwyddion Hysbysebu.

Disgwylid y byddai'r ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos yn dechrau ar ddiwedd mis Ionawr ac y byddai'n cael ei fabwysiadu a'i gyhoeddi ym mis Mai 2020.

Trafododd y Grŵp Llywio'r canlynol: -

- Yr arweiniad ar wahân sy'n cael ei ddrafftio ar gyfer parciau carafanau;
- Adolygiad o'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA);
- Dulliau gweithio'r Grŵp Llywio wrth gynorthwyo â drafftio/chraffu ar bolisïau sy'n effeithio ar yr AoHNE;
- Sut yr ymgynghorir â'r Grŵp Llywio'n effeithiol a chynnwys y grŵp yn uniongyrchol wrth ddrafftio/adolygu polisïau.
- Gwybodaeth berthnasol yn cael ei ddosbarthu i'r Grŵp Llywio e.e. cael gwybod am brosiectau perthnasol yn yr AoHNE.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Sefydlu Gweithgor ar ddechrau'r flwyddyn newydd o aelodaeth y Grŵp Llywio er mwyn rhoi mewnbwn uniongyrchol i'r adolygiad.

**32 Materion Parcio Cefn Bryn. (Llafar)**

Darparodd Steve Heard, Is-gadeirydd, ddiweddariad llafar ynghylch cyfarfod y Gweithgor a gynhaliwyd i drafod y problemau parcio cyfredol yng Nghefn Bryn.

Ychwanegodd fod yr Is-Grŵp wedi tynnu sylw at y canlynol: -

- Nid oedd neb yn mynd i'r afael â'r broblem parcio ar ael y bryn;
- Roedd pobl yn parcio ym mhellach ar Gefn Bryn, gan achosi erydiad;
- Yr unig le y gallai ymwelwyr barcio i allu ymweld â Maen Ceti (Carreg Arthur) oedd yr ardal bresennol ar ben Cefn Bryn;
- Mae angen lleihau'r lle parcio sydd ar gael ar ael y bryn er mwyn gallu rheoli'r parcio/parcio dros nos.
- Rhaid bod ymwelwyr yn gallu parcio yn rhywle.

Gwnaeth y Grŵp Llywio sylw ar yr wyneb ar ael Cefn Bryn; yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer y dyfodol; addysgu ymwelwyr am anifeiliaid; cael ymwelwyr oddi ar y ffordd wrth aros ar ben y bryn; opsiynau ariannu a'r effaith ar y SoDdGA

**Penderfynwyd** nodi cynnwys y diweddariad.

**33 Cronfa Datblygu Cynaliadwy.**

Darparodd Steve Heard, Is-gadeirydd, ddiweddariad llafar ynghylch cyfarfod y Gweithgor a gynhaliwyd i drafod y problemau parcio cyfredol yng Nghefn Bryn.

Ychwanegodd fod yr Is-Grŵp wedi tynnu sylw at y canlynol: -

- Nid oedd neb yn mynd i'r afael â'r broblem parcio ar ael y bryn;
- Roedd pobl yn parcio ym mhellach ar Gefn Bryn, gan achosi erydiad;
- Yr unig le y gallai ymwelwyr barcio i allu ymweld â Maen Ceti (Carreg Arthur) oedd yr ardal bresennol ar ben Cefn Bryn;
- Mae angen lleihau'r lle parcio sydd ar gael ar ael y bryn er mwyn gallu rheoli'r parcio/parcio dros nos.
- Rhaid bod ymwelwyr yn gallu parcio yn rhywle.

Gwnaeth y Grŵp Llywio sylw ar yr wyneb ar ael Cefn Bryn; yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer y dyfodol; addysgu ymwelwyr am anifeiliaid; cael ymwelwyr oddi ar y ffordd wrth aros ar ben y bryn; opsiynau ariannu a'r effaith ar y SoDdGA

**Penderfynwyd** nodi cynnwys y diweddariad.

**34 Is-grwp Cynllun Rheoli AHNE Gwyr. (Llafar)**

Adroddwyd bod yr is-grŵp wedi'i drefnu ond eu bod yn aros i ddyddiad cwrdd gael ei drefnu'n derfynol. Holodd y Grŵp Llywio a oedd angen aelodau ychwanegol ar gyfer yr Is-grŵp.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf;
2) Anfon yr ymholiad ynghylch yr aelodaeth ychwanegol ymlaen at Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr.

**35 Llwybrau Troed Amlddefnydd Arfaethedig.**

Hysbyswyd y Grŵp Llywio gan Chris Dale, Arweinydd Tîm Mynediad i Gefn Gwlad, o gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) i newid hawliau mynediad.

Trafododd y Grŵp Llywio'r mater yn fanwl fel a ganlyn: -

- Cynigion/newidiadau deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Ymgynghoriadau LlCC ynghylch mynediad i lwybrau troed, gwahaniaethu rhwng llwybrau ceffyl/llwybrau troed ac agosrwydd at lwybrau troed tai preswyl ym mhenrhyn Gŵyr.

- Caniatáu i feicwyr ddefnyddio llwybrau ceffyl ym mhenrhyn Gŵyr yn Ryer's Down, Bryn Llanmadog a Harding's Down;
- Difrod posib i'r cloddwaith/henebion sylweddol yn yr ardal;
- Problemau diogelwch posib a achosir gan feicwyr yn brawychu ceffylau ar lwybrau troed, ymddygiad gwael beicwyr tuag at geffylau/marchogion a mynd i'r afael â'r 'ymagwedd dawel';
- Addysgu defnyddwyr (yn enwedig beicwyr) ynghylch defnyddio llwybrau troed/ llwybrau ceffyl;
- Sicrhau nad yw penderfyniad LICC yn cael ei farnu ymlaen llaw;
- Osgoi 'ralïau' ar rannau bach o drac/llwybr troed

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**36 Grwp Llywio Grwp Gweithredu Tir Comin.**

Amlygodd John Marson, Grŵp Gweithredu Diogelwch Tir Comin Gŵyr y nifer uchel o anifeiliaid sy'n cael eu lladd ar dir comin Gŵyr oherwydd cyflymder traffig. Ychwanegodd fod cominwyr Gŵyr yn symud eu hanifeiliaid o'r tir comin gan olygu bod coed/deiliant yn tyfu'n wyllt. Amlygodd hefyd fod angen arwyddion rhybudd cyflymder ychwanegol.

**Penderfynwyd** ychwanegu'r eitem at agenda'r cyfarfod nesaf a drefnir.

**37 Diffyg Ymateb gan y Gwasanaethau Cynllunio.**

Gwnaeth Gordon Howe, Cymdeithas Gŵyr, sylw, yn ei brofiad ef, ar yr ymateb araf iawn/diffyg ymateb gan Gyngor Abertawe o ran y cwynion a gyflwynwyd. Ychwanegodd ei fod yn dymuno osgoi mynd ar drywydd materion drwy'r Ombwdsmon ac anogodd bawb i fod yn ymwybodol o'r materion a oedd yn niweidio'r AoHNE.

**38 Coetir yn Cartersford.**

Amlygodd Gordon Howe, Cymdeithas Gŵyr, fod coed wedi'u torri yn Cartersford a bod carafán yng nghanol y coetir hwn, sy'n anghyfreithlon yn ei farn ef. Gofynnodd am gamau gweithredu er mwyn atal y dinistr/symud y garafán.

Dywedwyd wrtho nad oedd angen camau gorfodi ar hyn o bryd a bod trwydded torri coed wedi'i rhoi gan CNC ar gyfer y gwaith.

Daeth y cyfarfod I ben am 8.55 pm

**Cadeiryd**